Paratowyd yr adroddiad hwn i ymddiriedolwyr yr elusen, fel corff, ac ar eu cyfer hwy yn unig, yn unol ag Adran 144 Deddf Elusennau 2011. Ymgymerwyd â'n gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan i ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd a heb fod at unrhyw bwrpas arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r elusen ac ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, neu am y barnau a ffurfiwyd gennym.

Priod gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Archwilwyr

Fel yr esbonnir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, y mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion y gyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig) ac am fod yn fodlon bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi dewis i'r datganiadau ariannol gael eu harchwilio yn unol â Deddf Elusennau 2011 yn hytrach na Deddf Cwmnïau 2006. Yn unol â hynny, rydym wedi ein penodi fel archwilwyr o dan Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac adroddwn yn unol ag adran 154 y Ddeddf honno. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol a datgan barn arnynt yn unol â'r gyfraith berthnasol ac â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y DU ac Iwerddon). Y mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Rhoddir disgrifiad o gwmpas archwiliad o ddatganiadau ariannol ar wefan y Bwrdd Arferion Archwilio www.frc.org.uk/apb/scope/private.cfm

Barn

Yn ein barn ni:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2022 ac o'i adnoddau sy'n dod i mewn ac o ddefnyddio adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac

- Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac

- Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I AELODAU MENTER BRO OGWR

Materion y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd o ran y materion canlynol, y mae Deddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni gyflwyno adroddiad i chi arnynt, os barnwn:

- fod y wybodaeth a roddir yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw ffordd o bwys â'r datganiadau ariannol; neu
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyfateb i'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- Nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae arnom eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

Stephen Davies F.C.C.A
Archwiliwr Annibynnol
Ar gyfer : Curtis Bowden & Thomas Cyfyngedig
Cyfrifwyr Siartredig Ardystiedig a
Archwilwyr Statudol
9 Court Road
Penybont ar Ogwr
CF31 1BE

12 Rhagfur 2022

Menter Bro Ogwr

Cwmni cyfyngedig trwy warant rhif: 5522274

Elusen gofrestredig rhif: 1112683

Datganiad o Weithgareddau Ariannol

Incwm a Gwariant am y Flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	**Cyfanswm 2021/2022**	Cyfanswm 2020/2021
Adnoddau a dderbyniwyd				
Grantiau	81,576		81,576	169,517
Rhoddion	-		-	-
Llog Banc/CIC	-		-	-
Incwm Codi Arian	72178		72178	7806
Incwm arall	-		-	-
Cyfanswm derbyniwyd	153,754		153,754	177,323
Adnoddau a wariwyd				
Elusennol uniongyrchol				
Gweithgaredd	138,716		138,716	170,108
Costau Cynnal	1,906		1,906	2,062
Gwariant arall				
Cyhoeddusrwydd	7		7	15
Rheoli a gweinyddu	2,568		2,568	3,295
Siop Yr Hen Bont				
Cyfanswm a wariwyd	143,197		143,197	175,480
Adnoddau net a dderbyniwyd	10,556		10,556	1,843
Balansau a ddygwyd ymlaen	12,414		12,414	10,570
Balansau a gariwyd ymlaen	22,970		22,970	12,413

Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr holl enillion a cholledion y flwyddyn

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Menter Bro Ogwr

Cwmni cyfyngedig trwy warant rhif: 5522274

Elusen gofrestredig rhif: 1112683

Datganiad o Weithgareddau Ariannol

Mantolen ar 31 Mawrth 2022

	2022	2021
Asedau Sefydlog	£	£
Asedau Anghyffyrddadwy		
Asedion Cyffyrddadwy		
Buddsoddiadau		
Cyfanswm asedion sefydlog	-	-
Asedion Cyfredol		
Stociau		
Dyledwyr	-	-
Arian yn y Banc ac mewn llaw	**22,970**	12,413
Cyfanswm asedion cyfredol	**22,970**	12,413
Credydwyr tymor byr	-	-
Asedion Cyfredol Net	**22,970**	12,413
Cronfeydd		
Cronfeydd anghyfyngedig	**22,970**	12,413
Cronfeydd cyfyngedig		
Cyfanswm y Cronfeydd	**22,970**	12,413

Mae'r datganiadau ariannol yma wedi eu paratoi yn ôl y darpariaethau arbennig yn Rhan VII o ddeddf y Cwmnïau 2006 yn ymwneud â chwmniau bach ac yn unol a Safonau Cymwys ar gyfer Endidau Bach (Ebrill 2008)

Cymeradwywyd y cyfrifon gan y Cyfarwyddwyr ac fe'u harwyddwyd ar eu rhan gan:

John Hearn

TRYSORYDD 1.10.22

Polisiau cyfrifo

Y sail cyfrifo
Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi o dan y confensiwn costau hanesyddol ac yn unol a safonau cyfrif cymwys ar gyfer Endidau Bach (mewn grym Ebrill 2008). Dilynir hefyd y Ddeddf Elusennau 2011 a'r datganiad o ymarferion a gynhwysir yn 'Adrodd a Chyfrifo am Elusennau: Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau (SORP)' a gyhoeddwyd ym Mawrth 2005.

Incwm Gwirfoddol
Derbyniwyd incwm gwirfoddol mewn ffurf rhoddion ac fe gynhwysir yn llawn yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol pan yn ddyledus. Ni chynwysir yn y cyfrifon gwerth y gwasanaeth a roddwyd gan wirfoddolwyr gan nad ydym yn gallu mesur y swm gan ddibynadwyaeth digonol. Caiff incwm o fuddsoddiadau eu credydu wrth eu derbyn.

Dibrisiant
Nid yw'r tir yn cael ei ddibrisio. Dibrisir asedion sefydlog y cwmni ar raddfeydd er mwyn lleihau cost yr ased, llai eu gwerth gweddilliol, dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased fel a ganlyn:
Offer a chyfarpar 33.33% ar gost

Grantiau
Caiff grantiau eu cynnwys yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol pan yn ddyledus.

Treth
Mae Menter Bro Ogwr yn elusen gofrestredig ac felly yn rhydd o dalu treth corfforaethol ar ei weithgareddau elusennol.

Menter Bro Ogwr

Cwmni Cyfyngedig drwy warrant rhif 5522274

Elusen gofrestredig 1112683

Derbyniadau a Threuliau am y Flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022

Derbyniadau	
Llywodraeth Cymru	60,000.00
Clwb ar ol ysgol	16051
Gweithgareddau	3125
Grant Strategaeth Llywodraeth Cymru	3000
Grant Darparlaeth Iechyd Meddwl ac Emosiynol	2995
Cyngor Pen-y-bont	4183
Hwyl yr Haf	1400
Grant Gaeaf Llawn Lles	2400
BAVO	4573
HMRC JRS Grant	368
Helo Blod	2658
Cadw	25500
Cyfanswm	**£126,251**
Cadw	27,500
Llog cyf cadw/CIC	£2
Cyfanswm	£153,753
Cyfanswm Derbyniadau	**153,753**

Treuliau	
Cyflogau	75,477
Telthio / Treuliau	973
Swyddfa	645
Argraffu	7
Nwy a Trydan	649
Dŵr	612
Clwb ar ôl Ysgol	5,463
Yswiriant	1,178
Aelodaeth	1,000
Ffôn	1,375
Gweithgareddau	1,703
Easystore	1,100
Costau Banc	15
cadw	27,500
Cyfanswm	**117,697**
Gwariant Cyfrif Cadw	25,500
Cyfanswm	143,197
Cyfanswm Treuliau	**143,197**

CRYNODEB

Cronfa Anghyfyngedig

Cyfanswm derbyniwyd	153,753
Cyfanswm a wariwyd	143197
Adnoddau net a dderbyniwyd	10556
Balans dygwyd ymlaen	12,414
Balans gariwyd ymlaen	22970

MENTER BRO OGWR

England & Wales - Charity number 1112683

Accounts



Adroddiad Blynyddol Menter Bro Ogwr Annual Report 2020 - 2021

Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Increasing the use of the Welsh language in the communities of Bridgend County Borough

07774032624 | menter@broogwr.org

Elusen gofrestredig rhif: 1112683.

Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant rhif: 5522274

MENTER BRO OGWR

DEFNYDDIWCH EICH CYMRAEG - USE IT OR LOSE IT!

Rhagair

Ar ddiwedd yr hyn a fu'n flwyddyn heriol iawn i bawb, mae'n bleser mawr gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Menter Bro Ogwr ar gyfer y flwyddyn 2020-21. Nid yw'n bosibl wynebu heriau heb ymrwymiad a brwdfrydedd staff, swyddogion ac aelodau'r Bwrdd Rheoli, gwirfoddolwyr a phartneriaid. Er bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol dros ben, mae hefyd wedi cyflwyno ffyrdd newydd o weithio, datblygu prosiectau cyffrous newydd, denu cyllid ychwanegol ynghyd ag ymateb parhaus i anghenion cymunedau lleol.

Llwyddodd Menter Bro Ogwr i sicrhau dros £169,000 mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau cyfrwng Cymru i fwrdeistref Sir Pen-y-bont ar Ogwr trwy dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, BAVO, Moondance a Chyngor Cymuned Castellnewydd Uwch.

Eleni, derbyniodd Menter Bro Ogwr y Marc Ansawdd Elusen Ddibynadwy, marc sydd yn cydnabod eu gwaith rhagorol fel mudiad yn y trydydd sector yng Nghymru.

Mae'r ymrwymiad a'r arweiniad cryf gan y Bwrdd Rheoli wedi bod yn hanfodol, ynghyd â brwdfrydedd a chydweithrediad tîm agos a chryf o staff a chefnogaeth cyfraniad sylweddol gwirfoddolwyr.

Staff

Amanda Jaine Evans	**Prif Swyddog Iaith**
Kathryn Campbell	**Swyddog Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**
Marged Elin Thomas	**Swyddog Maes a Gweinyddol**
Emily Chilcott	**Ymgynghorydd Helo Blod Lleol | Swyddog Ieuenctid**
Mari Lewis	**Gweithiwr Chwarae**
Hannah-May Maddern	**Arweinydd Chwarae**

Bwrdd Rheoli | Is-bwyllgor Rheoli

Daniel Lloyd Evans	**Cadeirydd**
Rhiannon Dixon	**Is-Gadeirydd**
John Thomas	**Trysorydd**
Rebecca Bowen	**Ysgrifennydd Bwrdd**
Penri Williams	**Ysgrifennydd Cwmni**
Amanda Jaine Evans	**Ysgrifennydd Cwmni o'r 8fed o Fedi 2020**
Brian Roderick	
Margaret Thomas	
Huw Marshal	

Menter Bro Ogwr

Mae Menter Bro Ogwr yn hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gydweithio â mudiadau, cymdeithasau, busnesau, dysgwyr ac ysgolion. Bwriad y Fenter yw codi proffil yr iaith Gymraeg yn y sir gan gynyddu cyfleoedd trigolion o bob oedran i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o feysydd.

Sefydlwyd Menter Iaith Bro Ogwr yn Hydref 1993 gan griw o wirfoddolwyr oedd eisiau sicrhau llais i'r iaith Gymraeg yn y sir. Nod y Fenter oedd codi proffil yr iaith ym Mro Ogwr drwy gynnig cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn ogystal â magu hyder a chynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg newydd.

Yn ystod chwe blynedd gyntaf bodolaeth y Fenter gweithiodd y pwyllgor o wirfoddolwyr yn ddiwyd i drefnu Nosweithiau i'r Teulu a Nosweithiau Llawen, yn ogystal â sicrhau bod Cynllun Chwarae uniaith Gymraeg yn agor ym Mro Ogwr a Maesteg. Yn 1999 penodwyd Swyddog Datblygu llawn amser ar ôl derbyn cyllid gan Fwrdd Yr Iaith Gymraeg. Rhoddwyd swyddfa i ni gan y Cyngor Sir ac ers hynny mae'r datblygiadau wedi bod yn galonogol iawn.

Ar y 1af o Ebrill 2006 cafodd Menter Bro Ogwr ei sefydlu fel elusen a chwmni cyfyngedig drwy warant. Mae bod yn elusenyn hanfodol i'r Fenter er mwyn galluogi ni i gyflwyno ceisiadau ariannol ar gyfer y gwaith yr ydym yn dymuno gwneud. Mae'n gryfder ein bod ni wedi cofrestru fel cwmni cyfyngedig drwy warant gan ein bod yn amddiffyn aelodau Bwrdd Rheoli'r Fenter rhag atebolrwydd ariannol personol petai'r Fenteryn mynd yn fethdalwr.

Lleolir swyddfa Menter Bro Ogwr yn Nhŷ gofalwr Ysgol Cynwyd Sant, Maesteg lle y mae'r Prif Swyddog Iaith, Swyddog Helo Blod Lleol a'r Swyddog Maes a Gweinyddol y Fenter yn gweithio. Yn ogystal â hyn mae Swyddog Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y Fenter yn gweithio o Ysgol Y Ferch o'r Sgêr yng Nghorneli dau ddiwrnod yr wythnos a Swyddog Ieuenctid y Fenter o Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd tridiau'r wythnos.

Gweithgareddau i blant a Theuluoedd

Mae darparu gweithgareddau i'r teulu cyfan yn flaenoriaeth allweddol i Fenter Bro Ogwr ac yn ystod y flwyddyn heriol yma roedd yn rhaid i'r Fenter gweithio mewn ffordd newydd gan gynnig gweithgareddau a phrosiectau ar-lein ac wyneb yn wyneb yn unol â chanllawiau Covid-19.

Roedd y rhaglen hon yn cynnwys nifer o brosiectau, cyfleoedd i gymdeithasu a chymryd rhan mewn cystadlaethau. Dyma grynodeb o'r hyn a ddarparwyd gennym



Diwrnod Rhyngwladol Llyfrau Plant Hapus!
Gem y dydd
Her y Dydd
Crefft yr wythnos
Clwb Celf Nadoligaidd
Clwb Theatr Cymru
Sesiwn Bwci-Bos i blant
Geirfa Pasg
Sgil yr wythnos
BINGO aros gartref
Clwb Darllen Dilys y Ddraig!
Clwb Ysgrifennu i Blant
Sadwrn gwisg ffansi
Beth am ddysgu enwau ystafelloedd yn y tŷ heddiw!
Minecraft
Cystadleaeth Brwydr y Bwgan Brain
Dathlu bywyd a gwaith Roald Dahl
Gweithgareddau Magi Ann
Gweithgaredd y penwythnos
Cyfres o weithgareddau i ddathlu Dydd Owain Glyndŵr
Cyfle i deuluoedd cymryd rhan mewn dathliadau Diwrnod Shwmae
Gweithgareddau lliwio
Cystadleuaeth Llun Dychrynllyd
Cystadleuaeth Stori Arswyd
Cystadleuaeth Cestyll Tywod Bwystfilod
Cystadleuaeth cerfio pwmpen bwganllyd
Cystadleuaeth gwisg gorau
Cystadleuaeth Addurno Penglog
Cystadleuaeth Cwis Dim Clem
Helfa Calan Gaeaf
Helfa thema'r Nadolig i'r teulu
Fideo Stori Noswyl Nadolig
Hwyl a Sbri i'r teulu
#STEM
Eisteddfod Hwyl Menter Bro Ogwr
Clwb Bananas Bro Ogwr, sef Clwb all ysgol

Yn ychwanegol at hyn, datblygodd y Fenter nifer o becynnau gweithgareddau ar themâu gwahanol gan gynnwys Y Fari Lwyd, Santes Dwynwen a Dydd Miwsig Cymru. Rhannwyd y pecynnau yma gyda'r ysgolion Cymraeg a Saesneg y Sir er mwyn i blant allu dysgu am ddiwylliant Cymru a mwynhau gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.


Gweithio gyda phobl ifanc

Mae Menter Bro Ogwr yn darparu gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae hyn yn hollbwysig yn y Sir, sy'n sicrhau ysgwyddo cyfrifoldeb dros hyrwyddo, cydgysylltu a darparu rhaglenni gwaith ieuenctid ar gyfer pobl ifanc dros 11 oed.

Mae'r gwaith amrywiol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyfleuster 'galw i mewn', cefnogaeth un i un a sesiynau gwaith grŵp gan ddatblygu a chefnogi'r rhaglenni sy'n bodoli'n barod gyda siaradwyr Cymraeg a dysgwyr cymunedau'r fwrdeistref.

Dyma grynodeb o'r hyn a ddarparwyd gennym,
Cefnogi iechyd meddwl a lles pobl ifanc yn ystod yr achosion o coronafirws (COVID-19)
Ffyrdd i leddfu straen gartre
Ymwybyddiaeth iechyd meddwl
Creu CV dwyeithog
Sesiynau coginio
Hyfforddiant datblygu sgiliau bywyd
Cwis yr wythnos
Cwis myfyrwyr coleg pen y bont
Ras 1, 2, 3
Tafarn y Clo
Gweithdy creu Torch Nadolig
Parti Nadolig Menter Bro Ogwr
Cwis Nadolig MBO i flynyddoedd 7, 8 a 9
Cwis Nadolig MBO i flynyddoedd 10 ac 11
Cwis Hanner Tymor
Clwb Coginio
Cystadleaeth Brwydr y Bwgan Brain
Cystadleuaeth Llun Dychrynllyd
Cystadleuaeth Stori Arswyd
Cystadleuaeth Cestyll Tywod Bwystfilod
Cystadleuaeth cerfio pwmpen bwganllyd
Cystadleuaeth gwisg gorau
Cystadleuaeth Addurno Penglog
#STEM
Hyfforddiant Ymddiriedolaeth i Bobl Ifanc
Coffi a Chlonc i fyfyrwyr
Sesiynau Gwirfoddoli i Menter Bro Ogwr
Clybiau ieuenctid wythnosol



Sesiynau derbyn eich barn ar wasanaethau Menter Bro Ogwr

Yn ychwanegol at hyn, creodd y Fenter nifer o weithgareddau digidol ar gyfer pobl ifanc sy'n addysgiadol, mynegiannol, cyfranogol a grymusol.

Rydym wedi creu a chynal cwrs Iechyd a Lles i bobl ifanc er mwyn eu cefnogi nhw yn ystod cyfnod heriol iawn.

Rydym wedi creu pecynnau ar gyfer yr ysgolion uwchradd sy'n llawn adnoddau iddyn nhw ddefnyddio i ddathlu dyddiadau a digwyddiadau i ddathlu yng Nghymru.

Addysg Gymraeg

Cynyddu'r galw am addysg Gymraeg

Mae'r Fenter yn parhau i lobio'r Cyngor i sicrhau addysg a chynnydd yn y nifer o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ein Bwrdeistref. Rydym yn cyflawni hwn trwy eistedd ar y Grŵp Llywio Rhaglen Gyfalaf y Gymraeg a'r Fforwm Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Yn ogystal â lobio'r Cyngor, mae'r Fenter yn cynnal ymgyrchoedd sirol sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo manteision dwyieithrwydd, trosglwyddiad iaith yn y cartref, addysg Gymraeg a dilyniant addysg Gymraeg.

Ym mis Tachwedd 2020 cynhaliodd y Fenter ymgyrch i roi hwb i Addysg Gymraeg ym Mro Ogwr. Cyfle i rieni sy'n meddwl dewis addysg Gymraeg i'w plentyn i dderbyn gwybodaeth am addysg Gymraeg gan gynnwys,

Ffeithiau manteision dwyieithrwydd
Cymraeg i Blant
Cylchoedd Meithrin
Ysgolion Cynradd
Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd
Dysgu Cymraeg Morgannwg
Dwy iaith = dwywaith y sgiliau

Rydym yn parhau i gynnal grŵp Teuluoedd Menter Bro Ogwr ar Facebook sydd gyda 113 o aelodau. Mae'r Grŵp yma i bob teulu yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau ac addysg Cymraeg leol.

Darpariaeth i Oedolion

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, datblygwyd rhaglen amrywiol o gyfleoedd i oedolion ddysgu sgiliau newydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Cynhaliwyd ystod o gyrsiau blasu gan gynnwys Sesiwn grefft a sgwrsio, Cod Cefn Gwlad, Hanes y llwy garu a Facebook a Twitter ar gyfer y di-glem!

Yn ychwanegol at hyn, gwnaeth y Fenter sicrhau cyfleoedd i oedolion medru cymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg boed ar-lein neu wyneb yn wyneb.



Dyma grynodeb yr hyn a ddarparwyd gennym,
Sesiynau wythnosol Cam Ymlaen ar-lein
Sesiynau wythnosol Coffi a Chlonc ar-lein
Eisteddfod Hwyl Menter Bro Ogwr
Tafarn y Clo
Ras 1, 2, 3
Gweithdy creu Torch Nadolig
Parti Nadolig Menter Bro Ogwr

Gwirfoddoli gyda Menter Bro Ogwr

Mae recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr wedi bod yn agwedd ganolog ar waith Menter Bro Ogwr ers ei sefydlu. Y gefnogaeth a'r ymrwymiad gan wirfoddolwyr yn ein galluogi i ddarparu ystod eang o gyfleoedd trwy gyfrwng Cymraeg. Yn ychwanegol i hyn, mae'r cyfle i wirfoddoli gyda Menter Bro Ogwr trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfle gwych wrth ddysgu'r iaith, i rannu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd newydd i ddefnyddio'ch Cymraeg.

Eleni, roeddem wedi gallu cefnogi ein gwirfoddolwyr i wirfoddoli o fewn ein prosiectau a gynhaliwyd ar-lein. Rydym hefyd wedi croesawu grŵp o ddisgyblion o Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd i ddod a gwirfoddoli yn ein gwasanaethau ac i fod yn banel ymgynghori sydd wedi ein cefnogi ni i flaenoriaethu ein cynnig a gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc. Mae eu cyfraniadau wedi bod yn hynod werthfawr ac mae'r adborth gan y gwirfoddolwyr eu hunain wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Gobeithiwn yn fawr ein bod yn gallu parhau i ddatblygu'r cyfleoedd hyn a sicrhau ein bod yn cynnig cyfleoedd newydd i wirfoddolwyr o bob oed i wirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg yn lleol a derbyn cydnabyddiaeth am y cyfraniad hwn.

Gweithgareddau Digidol

Yn ystod y flwyddyn roeddem yn awyddus iawn i ddatblygu ymhellach y cyfleoedd a sefydlwyd i blant, pobl ifanc ac oedolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau digidol trwy gyfrwng y Gymraeg. Daeth yn glir o'r cyfnod clo bod angen i ni weithio mewn ffordd newydd er mwyn sicrhau defnydd o'r Gymraeg. Dangosodd ein gwaith ymchwil fod prinder o gynnwys cyfrwng Cymraeg ar-lein yn ogystal â diffyg rhwydweithiau ar-lein cyfrwng Cymraeg, sianeli a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg lleol a oedd yn rhoi cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau digidol. Yn ystod y cyfnod, cynhaliwyd nifer o weithdai, sesiynau a gweithgareddau gan gynnwys Penblwydd Hapus, Dihareb yr wythnos, Dathlu diwrnodau yng Nghymru, Cyfle i fyegi barn, Top Tip, Gweithgaredd Positifrwydd, Gweithgaredd y Penwythnos, gweithgareddau Magi Ann a llawer mwy.

Yn ychwanegol at hyn, gweithredodd y Fenter Raglen Ymgysylltu yn canolbwyntio ar themâu gwahanol unwaith bob pythefnos. Gweler isod themâu cynhaliwyd yn ystod y flwyddyn;

Bardd Plant Cymru
Calan Gaeaf
Hwb i Addysg Gymraeg ym Mro Ogwr
Dathlu blwyddyn o waith Menter Bro Ogwr
Paratoi ar gyfer Nadolig
Arferion y Nadolig
Santes Dwynwen
Dydd Miwsig Cymru
Iechyd a Lles
Dydd Gŵyl Dewi
Oen y Gwanwyn



Gŵyl Ogi Ogi Ogwr

Dyma ein gŵyl fach Gymraeg yn ei phedwaredd flwyddyn. Gyda heriau Covid-19, roedd y Fenter yn awyddus i barhau i gynnal ein Gŵyl Ogi Ogi Ogwr.

Mae Gŵyl Ogi Ogi Ogwr yn darparu cyfleoedd ar gyfer amryw o berfformwyr unawdwyr, deuawdau, dawnsiau unigol a mwy i ddod a pherfformio yn ystod y dydd. Mae cymaint o bobl ifanc, plant ac oedolion talentog yn ein sir, roeddem yn awyddus i gael pawb ynghyd i berfformio yn ein gŵyl fach a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg am y tro cyntaf ar-lein. Roedd y Fenter wedi trefnu'r digwyddiad yma gydag ymrwymiad a chydweithrediad o'n phartneriaid.



Hoffem estyn ein diolch i Mwnci a Raj Balti am noddi'r Ŵyl eleni.
Roeddem wrth ein boddau o weld lefel yr ymgysylltu yn yr ŵyl eleni, gan gynnwys ein perfformiadau gan,

Gweni Meg Mannion - Ysgol Gymraeg Bro Ogwr
Lowri Keirl - Ysgol Y Ferch o'r Sgêr
Leon Welsby - Arweinydd Ffit Cymru Ffit Cymru Leader
Nia Menna Compton - Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd
Cymraeg i blant - Ar lan y môr
Menter Bro Ogwr - Arbrawf Gwyddoniaeth
Carwyn Keirl - Ysgol Uwchradd Archesgob McGrath
Menter Bro Ogwr - Teisen Fictoria Menter Bro Ogwr
Halibalw - Dewch am dro gyda mi ar lan y môr yng Nghymru
Cymraeg i blant - Crefft sglefren fôr gyda Doti
Dysgu Cymraeg Morgannwg - Cwis
Lauren Elizabeth Williams - Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Ela Titley - cyn-ddisgybl Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd
Harri Morgan - Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Sophie Williams - Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd
Plant Ysgol Cynwyd Sant Children
Daphnie y Dewin

Diolch hefyd i'r gwirfoddolwyr a wnaeth ein cynorthwyo i roi popeth at ei gilydd.

Ras 1, 2, 3

Gyda Ras yr Iaith wedi gohirio am flwyddyn, gwnaeth y Fenter ymuno ac annog trigolion y Fwrdeistref i gymryd rhan mewn ras rhithiol o gwmpas Cymru i godi arian at iechyd cymunedol mewn 3 cham bach:
1 - rhedeg/loncian/cerdded
2 - enwebu
3 - cyfrannu!



a gododd dros £3,000 i elusennau'r byrddau iechyd.

Mentrau Iaith Cymru

Mae Menter Bro Ogwr yn aelod o rwydwaith cenedlaethol Mentrau Iaith Cymru sy'n cefnogi'r 22 o Mentrau Iaith trwy amryw o weithgareddau a meysydd, gan gynnwys marchnata a chyfathrebu, hyfforddiant a dylanwadu er budd y Gymraeg. Wrth wraidd y rhwydwaith mae'r egwyddor o rannu gwybodaeth, profiadau, syniadau ac adnoddau rhwng y Mentrau Iaith a phartneriaid eraill ar draws Cymru.

Rydym hefyd yn datblygu prosiectau cenedlaethol a rhanbarthol mewn partneriaeth â'r Mentrau Iaith a chyrff eraill.

Ym mis Hydref 2018, etholwyd Amanda Jaine Evans, Prif Swyddog Menter Bro ogwr yn Drysorydd Mentrau Iaith Cymru am gyfnod o ddwy flynedd.

Marc Ansawdd Elusen Ddibynadwy

Yn ystod y flwyddyn, bu staff a Bwrdd Rheoli Menter Bro Ogwr yn gweithio'n galed er mwyn anelu at gyflawni'r Marc Answadd sy'n arbennig ar gyfer y sector wirfoddol. Derbyniodd y Fenter asesiad dau ddiwrnod ym mis Mawrth 2020 er mwyn dynodi a yw'r Fenter wedi ateb holl ofynion y Marc Ansawdd.

Mae'r Marc Ansawdd yn ystyried holl brosesau a llywodraethant y Fenter yn ogystal â'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd.

Roedd yr asesiad yn gyfle i ddangos yr holl waith da sy'n digwydd yn fewnol yn y Fenter ac o fewn ein gwasanaethau i'r cyhoedd. Rydym yn falch i gyhoeddi ein bod wedi llwyddo i basio'r asesiad ac wedi derbyn y Marc Ansawdd.



Marchnata

Mae marchnata effeithiol yn allweddol er mwyn sicrhau bod cynifer â phosib yn manteisio ar wasanaethau Menter Bro Ogwr. Mae'r Fenter yn cyflawni hyn mewn sawl ffordd wahanol. Mae'r rhestr e-bost sef yr e@chlysur yn cyrraedd dros 283 o bobl ac mae'n cael ei ddefnyddio i hysbysebu pob math o ddigwyddiadau Cymraeg mae'r Fenter yn trefnu neu'n ymwneud â nhw. Caiff llawer o waith hyrwyddo ei wneud ar Facebook a Twitter Menter Bro Ogwr. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gyda ni 1,594 o ddilynwyr ar Facebook ac 1,636 o ddilynwyr ar Twitter. Roedd 309 o bobl hefyd yn dilyn ni ar Instagram erbyn diwedd y cyfnod hwn. Mae'r Fenter hefyd yn cynhyrchu taflenni i hyrwyddo digwyddiadau penodol e.e. clybiau plant, Gŵyl Gymraeg Menter Bro Ogwr, ac mae rhain yn cael eu dosbarthu'n eang.

Partneriaethau

Mae Menter Bro Ogwr yn cydweithio â nifer fawr o gyrff a sefydliadau sy'n gweithredu'n ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnig cyfle i fudiadau lleoli gydweithio, rhannu arfer da a datblygu llais cryf lleol dros y Gymraeg. Bu'r cydweithio yn hollbwysig wrth drefnu Gŵyl Ogi Ogi Ogwr am y tro cyntaf ar-lein eleni.

Teimlwn yn ffodus iawn bod gennym bartneriaeth weithgar gyda chynrychiolaeth eang o fudiadau a phartneriaid gan gynnwys

RhAG
Mudiad Meithrin
Cymraeg i Blant
Ysgol Gynradd Gymraeg Bro Ogwr
Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd
Ysgol Gynradd Gymraeg Cynwyd Sant
Ysgol Gynradd Gymraeg Y Ferch o'r Sgêr
Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd
Urdd Gobaith Cymru
Coleg Pen-y-bont
Dysgu Cymraeg Morgannwg
CYD Porthcawl
Yr Hogwr
Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr
BAVO

Mae'n hynod o bwysig i'r Fenter weithio mewn partneriaeth â chymaint o fudiadau â phosib er mwyn gallu cynnig y gwasanaeth rydyn ni'n gwneud gyda chynlleied o staff. Hoffai'r Fenter gymryd y cyfle yma i ddiolch yn fawr iawn i'n partneriaid. Gobeithir y byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd, datblygu a chynnig cyfleoedd i gryfhau safbwynt cryf a dylanwadol dros y Gymraeg yn lleol.

Gwerthuso

Mae sicrhau adborth a sylwadau ynghylch gwasanaethau yn allweddol i Fenter Bro Ogwr, er mwyn sicrhau gwasanaeth proffesiynol ac effeithiol, a chynnal y safonau uchel sydd wedi eu gosod ers blynyddoedd. Eleni, cynhaliwyd gwerthusiad ar gyfer pob un o'n meysydd gwasanaeth ac mae'r ymatebion yn dangos bod y gwasanaethau yn cael eu hystyried yn hynod safonol a bod cwsmeriaid yn gwerthfawrogi gwaith y Fenter. Mae hyn yn gosod seilwaith cadarn i ni o ran ymchwil ac adborth ynghylch gwasanaethau Cymraeg ym Mro Ogwr.

429

Nifer o weithgareddau ar-lein sydd wedi cael eu trefnu

18,257

o ‘likes’, ‘shares’, sylwadau, ail-drydariadau

2092

o negeseuon, cylchlythyrau, lluniau neu fideos sydd wedi cael eu rhannu

10,630

Nifer sydd wedi ymuno neu gymryd rhan

157

o ymatebion i ymgynghoriadau

42

Nifer o rieni sy’n mynychu gweithgareddau i’r teulu


MENTER BRO OGWR

DEFNYDDIWCH EICH CYMRAEG - USE IT OR LOSE IT!

Manylion Cyswllt

Menter Bro Ogwr
Tŷ'r Ysgol,
Pen yr Ysgol,
Maesteg,
CF34 9YE

Ffôn: 07774032624
Ymholiadau cyffredinol: menter@broogwr.org
Cadeirydd, Menter Bro Ogwr



Menter Bro Ogwr

Cwmni Cyfyngedig drwy warrant rhif 5522274

Elusen gofrestredig 1112683

Datganiad ariannol

Am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2021

THURSDAY

AAJZDS9K

A08 23/12/2021 #292

COMPANIES HOUSE

MENTER BRO OGWR

1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021

CYNNWYS **TUD**

Gwybodaeth Gweinyddol	3
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	4
Adroddiad yr archwilwyr annibynnol	7
Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol	9
Mantolen	10
Nodiadau ar y cyfrifon	11

MENTER BRO OGWR

Gwybodaeth am y Cwmni
am y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021

Enw'r Cwmni:	Menter Bro Ogwr
Cyfeiriad Cofrestredig:	Menter Bro Ogwr Tŷ'r Ysgol Pen yr Ysgol, Maesteg Penybont ar Ogwr CF34 9YE
Cyfarwyddwyr:	Daniel Lloyd Evans John Thomas Brian Roderick Rhiannon Dixon
Ysgrifennydd:	Amanda Jaine Evans
Rhif Cofrestredig :	5522274 (Cymru a Lloegr)
Archwilwyr:	Curtis Bowden & Thomas Cyfyngedig 9 Court Road Bridgend CF31 1BE

MENTER BRO OGWR

Adroddiad y Cyfarwyddwyr
am y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021

Mae'r Cyfarwyddwyr, sydd hefyd yn Ymddiriedolwyr yr elusen at ddiben deddfwriaeth cwmnïau, yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2021.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu'r darpariaethau yn y 'Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau 2005' wrth baratoi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau yma.

Gweithredu
Mae'r cwmni yn cael ei weithredu yn ôl erthyglau a memorandwm Menter Bro Ogwr. Y Bwrdd sydd yn gyfrifol am arolygu holl waith a busnes yr elusen, gyda'r aelodau'n gweithredu fel Cyfarwyddwyr ac Ymddiriedolwyr. Etholir y Cyfarwyddwyr gan Gyfarfod Blynyddol Menter Bro Ogwr.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr/cyfarwyddwyr
Mae'r ymddiriedolwyr/cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am baratoi'r datganiadau cyllidol yn unol a gofynion safonau cyfrifyddol y Deyrnas Unedig sy'n berthnasol. Mae cyfraith elusennau'r Deyrnas Unedig yn mynnu bod yr ymddiriedolwyr yn darparu datganiadau cyllidol am bob blwyddyn sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr yr elusen ac o incwm a thraul yr elusen am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau cyllidol mae disgwyl i'r ymddiriedolwyr:-
- dewis polisïau cyfrifyddol addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- gwneud gosodiadau sy'n rhesymol a chall;
- dweud fod safonau cyfrifyddol perthnasol a Datganiad Ymarferion a Argymhellwyd wedi cael eu dilyn heblaw am unrhyw wyriadau materol sydd wedi ei datguddio a'u hesbonio yn y datganiadau cyllidol;
- darparu datganiadau cyllidol ar sail busnes oni bai ei bod yn anaddas i gymryd yn ganiataol y bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cyfrifon priodol sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ac ar unrhyw adeg gyflwr cyllidol yr elusen ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau cyllidol yn cydsynio a'r Ddeddf y Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau asedau'r elusen a chan hynny i gymryd camau rhesymol i atal ac i ddarganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Mor belled ag y mae'r ymddiriedolwyr yn gwybod:

- does dim gwybodaeth perthnasol i'r archwiliad y mae'r archwilwyr yn anymwybodol ohono;
- Cymerodd yr ymddiriedolwyr y camau priodol i ddatgan eu bod yn ymwybodol o holl wybodaeth yr archwiliad ac i sicrhau bod y wybodaeth hon yn hysbys i'r archwilwyr.

Adolygiad Risg
Mae'r Bwrdd Rheoli wedi paratoi cofrestr risg sydd yn cynnwys risgiau fel parhad y Fenter, materion ariannol, lechyd a Diogelwch, staffio a'r amgylchedd ac i sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau ar y risgiau hynny.

Amcanion a Gweithgareddau

Amcanion yr elusen yw i hybu addysg a gwybodaeth cyffredinol y gymuned drwy hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Mae'r Fenter yn darparu ystod eang o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mwrdeistref Penybont ar Ogwr a'r cyffiniau. Ceir braslun o'r gwaith ar safle gwe y Fenter www.menterbroogwr.cymru.

Mae Menter Bro Ogwr yn rhan bwysig o fywyd yr ardal ac yn cydweithredu gyda'r Cyngor Sir a nifer o fudiadau lleol. Yn ystod y flwyddyn datblygwyd nifer o weithgareddau a digwyddiadau er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith Cymry Cymraeg a Dysgwyr. Mae nifer o brosiectau eraill hefyd wedi eu cyflawni ym myd busnes a gofal plant ac mae'r Fenter o hyd yn chwilio am gyfleoedd newydd i hybu'r Gymraeg.

Mae'r Fenter yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru a'r Cyngor Sir am eu cefnogaeth ariannol i weithgareddau'r Fenter. Hefyd rhoddwyd oriau o waith gan wirfoddolwyr sy'n gweithredu ar bwyllgorau'r Fenter ac yn gweithio ar brosiectau'r Fenter. Dymuna'r cyfarwyddwyr ddiolch i bawb a gefnogodd y Fenter yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn falch i gyflwyno'r adroddiad yma a'r adroddiad ariannol o weithgarwch y Fenter. Mae'r cyfarwyddwyr wedi cymeradwyo yr adroddiad.

Budd cyhoeddus

Mae holl waith Menter Bro Ogwr yn cael ei gynllunio er budd y cyhoedd. Prif amcan y Fenter yw i hybu addysg a gwybodaeth cyffredinol y gymuned drwy hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
Gwneir hyn drwy drefnu gweithgareddau a digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd. Mae'r gweithgareddau a digwyddiadau yn rhoi cyfle i bobl o bob oed gymdeithasu a gwella eu sgiliau cyfathrebu a mwynhau mewn awyrgylch cyfeillgar. Rhoddir cyhoeddusrwydd eang i'r ddarpariaeth ac anogir pobl newydd i gymryd rhan. Mae galw cynyddol am y ddarpariaeth oddi wrth y cyhoedd ym mhob rhan o'r Sir.

Ni chodir tâl am rai o'r gweithgareddau a phan mae angen codi tâl rhoddir cefnogaeth i ddefnyddio'r cymorth daliadau sydd ar gael i leihau'r gost i bobl sy'n methu talu'r pris llawn.

Polisi Arian Wrth Gefn

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried anghenion yr elusen am arian wrth gefn yn unol â chanllawiau a roddwyd gan Gomisiwn yr Elusennau ac wedi mabwysiadu y polisiau canlynol:

Polisi Cronfa Arian Wrth Gefn

Mae angen cronfa arian wrth gefn i

(a) gael arian i'w glustnodi ar gyfer prosiectau arbennig er mwyn eu datblygu neu wireddu mewn cyfnod byr ac

(b) i sicrhau fod arian ar gyfer costau gweinyddu a chynnal sy'n galluogi'r elusen i weithredu yn arbennig yn ystod y cyfnod ar ddechrau blwyddyn ariannol newydd ac

(c) Polisi yr ymddiriedolwyr yw y dylai'r Gronfa Arian Wrth Gefn fod oddeutu 14% - 18% o'r gwariant anghyfyngedig.

Ar ddiwedd Blwyddyn Ariannol 2020/21

Y gweddill oedd

Anghyfyngedig £12,413 Cyfyngedig £0

Mae'r arian wrth gefn, sef £12,413 yn ddigonol i gynnal yr elusen dros gyfnod byr. Roedd yn 7% o'r gwariant anghyfyngedig yn 2020/21

Arwyddwyd ar rhan y cyfarwyddwyr gan:

John Thomas.

Cyfarwyddwr

15 Hydref 2021

Swyddfa gofrestredig:
Menter Bro Ogwr
Tŷ'r Ysgol
Pen yr Ysgol,
Maesteg
Penybont ar Ogwr
CF34 9YE

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I AELODAU MENTER BRO OGWR

Rydym wedi archwilio datganiad ariannol Menter Bro Ogwr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 o Mawrth 2021 sy'n cynnwys y datganiad o weithgareddau ariannol, a'r fantolen a'r nodiadau cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi, yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Paratowyd yr adroddiad hwn i ymddiriedolwyr yr elusen, fel corff, ac ar eu cyfer hwy yn unig, yn unol ag Adran 144 Deddf Elusennau 2011. Ymgymerwyd â'n gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan i ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd a heb fod at unrhyw bwrpas arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r elusen ac ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, neu am y barnau a ffurfiwyd gennym.

Priod gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Archwilwyr

Fel yr esbonnir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, y mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion y gyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig) ac am fod yn fodlon bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi dewis i'r datganiadau ariannol gael eu harchwilio yn unol â Deddf Elusennau 2011 yn hytrach na Deddf Cwmnïau 2006. Yn unol â hynny, rydym wedi ein penodi fel archwilwyr o dan Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac adroddwn yn unol ag adran 154 y Ddeddf honno. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol a datgan barn arnynt yn unol â'r gyfraith berthnasol ac â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y DU ac Iwerddon). Y mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Rhoddir disgrifiad o gwmpas archwiliad o ddatganiadau ariannol ar wefan y Bwrdd Arferion Archwilio www.frc.org.uk/apb/scope/private.cfm

Barn

Yn ein barn ni:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2021 ac o'i adnoddau sy'n dod i mewn ac o ddefnyddio adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac

- Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac

- Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I AELODAU MENTER BRO OGWR

Materion y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd o ran y materion canlynol, y mae Deddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni gyflwyno adroddiad i chi arnynt, os barnwn:

- fod y wybodaeth a roddir yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw ffordd o bwys â'r datganiadau ariannol; neu
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyfateb i'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- Nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae arnom eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

Curtis Bowden + Thomas Ltd.

Stephen Davies Director, F.C.C.A
Archwiliwr Annibynnol
Ar gyfer : Curtis Bowden & Thomas Cyfyngedig
Cyfrifwyr Siartredig Ardystiedig a
Archwilwyr Statudol
9 Court Road
Penybont ar Ogwr
CF31 1BE

29 Hydref 2021

Menter Bro Ogwr

Cwmni cyfyngedig trwy warant rhif: 5522274

Elusen gofrestredig rhif: 1112683

Datganiad o Weithgareddau Ariannol

Incwm a Gwariant am y Flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cyfanswm 2020/2021	Cyfanswm 2019/2020
Adnoddau a dderbyniwyd				
Grantiau	169,517		169,517	76,392
Rhoddion	-		-	-
Llog Banc/CIC	-		-	-
Incwm Codi Arian	7806		7806	85,866
Incwm arall	-		-	-
Cyfanswm derbyniwyd	177,323		177,323	162,258
Adnoddau a wariwyd				
Elusennol uniongyrchol				
Gweithgaredd	170,108		170,108	151,508
Costau Cynnal	2,062		2,062	2,372
Gwariant arall				
Cyhoeddusrwydd	15		15	340
Rheoli a gweinyddu	3,295		3,295	2,737
Siop Yr Hen Bont				
Cyfanswm a wariwyd	175,480		175,480	157,457
Adnoddau net a dderbyniwyd	1,843		1,843	4,801
Balansau a ddygwyd ymlaen	10,570		10,570	5,769
Balansau a gariwyd ymlaen	12,413		12,413	10,570

Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr holl enillion a cholledion y flwyddyn

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Menter Bro Ogwr

Cwmni cyfyngedig trwy warant rhif: 5522274

Elusen gofrestredig rhif: 1112683

Datganiad o Weithgareddau Ariannol

Mantolen ar 31 Mawrth 2021

	2021	2020
Asedau Sefydlog	£	£
Asedau Anghyffyrddadwy		
Asedion Cyffyrddadwy		
Buddsoddiadau		
Cyfanswm asedion sefydlog	-	-
Asedion Cyfredol		
Stociau		
Dyledwyr	-	-
Arian yn y Banc ac mewn llaw	12,413	10,570
Cyfanswm asedion cyfredol	12,413	10,570
Credydwyr tymor byr	-	-
Asedion Cyfredol Net	12,413	10,570
Cronfeydd		
Cronfeydd anghyfyngedig	12,413	10,570
Cronfeydd cyfyngedig		
Cyfanswm y Cronfeydd	12,413	10,570

Mae'r datganiadau ariannol yma wedi eu paratoi yn ôl y darpariaethau arbennig yn Rhan VII o ddeddf y Cwmnïau 2006 yn ymwneud â chwmniau bach ac yn unol a Safonau Cymwys ar gyfer Endidau Bach (Ebrill 2008)

Cymeradwywyd y cyfrifon gan y Cyfarwyddwyr ac fe'u harwyddwyd ar eu rhan gan:

John Thomas. TRYSORYDD.

15. 10. 21

Polisiau cyfrifo

Y sail cyfrifo

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi o dan y confensiwn costau hanesyddol ac yn unol a safonau cyfrif cymwys ar gyfer Endidau Bach (mewn grym Ebrill 2008). Dilynir hefyd y Ddeddf Elusennau 2011 a'r datganiad o ymarferion a gynhwysir yn 'Adrodd a Chyfrifo am Elusennau: Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau (SORP)' a gyhoeddwyd ym Mawrth 2005.

Incwm Gwirfoddol

Derbyniwyd incwm gwirfoddol mewn ffurf rhoddion ac fe gynhwysir yn llawn yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol pan yn ddyledus. Ni chynwysir yn y cyfrifon gwerth y gwasanaeth a roddwyd gan wirfoddolwyr gan nad ydym yn gallu mesur y swm gan ddibynadwyaeth digonol. Caiff incwm o fuddsoddiadau eu credydu wrth eu derbyn.

Dibrisiant

Nid yw'r tir yn cael ei ddibrisio. Dibrisir asedion sefydlog y cwmni ar raddfeydd er mwyn lleihau cost yr ased, llai eu gwerth gweddilliol, dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased fel a ganlyn:
Offer a chyfarpar 33.33% ar gost

Grantiau

Caiff grantiau eu cynnwys yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol pan yn ddyledus.

Treth

Mae Menter Bro Ogwr yn elusen gofrestredig ac felly yn rhydd o dalu treth corfforaethol ar ei weithgareddau elusennol.

Menter Bro Ogwr

Cwmni Cyfyngedig drwy warrant rhif 5522274

Elusen gofrestredig 1112683

Derbyniadau a Threuliau am y Flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021

Derbyniadau	
Llywodraeth Cymru	59,362.65
Clwb ar ol ysgol	3798
Gweithgareddau	4008
Grant Strategaeth Llywodraeth Cymru	3000
Cyngor Pen-y-bont	3191
Amazon Media EU SA	18
BAVO	3758
HMRC JRS Grant	9798
Helo Blod	15945
Cyfraniad	228
Moondance	3630
Cyngor Cymuned Castellnewydd Uwch	300
Cadw	31300
Cyfanswm	£138,335
Cadw	38,983
Llog cyf cadw/CIC	£5
Cyfanswm	£177,323
Cyfanswm Derbyniadau	177,323

Treuliau	
Cyflogau	90,243
Teithio / Treuliau	743
Swyddfa	1,000
Argraffu	15
Nwy a Trydan	462
Dŵr	600
Clwb ar ôl Ysgol	4,032
Yswiriant	1,233
Aelodaeth	1,050
Ffôn	2,063
Gweithgareddau	3,145
Hyfforddiant	612
cadw	38,983
Cyfanswm	144,180
Gwariant Cyfrif Cadw	31,300
Cyfanswm	175,480
Cyfanswm Treuliau	175,480

CRYNODEB

Cronfa Anghyfyngedig

Cyfanswm derbyniwyd	177,323
Cyfanswm a wariwyd	175480
Adnoddau net a dderbyniwyd	1843
Balans dygwyd ymlaen	10,570
Balans gariwyd ymlaen	12413

Menter Bro Ogwr

Company Limited by guarantee number: 5522274

Registered Charity:1112683

Financial statement

For the year ended 31 March 2021

MENTER BRO OGWR

For the year ended 31 March 2021

CONTENTS PAGE

Administrative Information	3
Director's report	4
Independent Auditors' Report	7
Statement of Financial Activities	9
Balance sheet	10
Notes on the accounts	11

MENTER BRO OGWR

Information on theCompany

for the period 1 April 2020 to 31 March 2021

Company Name:	Menter Bro Ogwr
Registered address:	Menter Bro Ogwr Ty'r Ysgol Pen yr Ysgol; Maesteg Penybont ar Ogwr CF34 9YE
Directors:	Daniel Lloyd Evans John Thomas Brian Roderick Rhiannon Dixon
Secretary:	Amanda Jaine Evans
Registered Number:	5522274 (England and Wales)
Auditors	Curtis Bowden & Thomas Cyfyngedig 9 Court Road Bridgend CF31 1BE

MENTER BRO OGWR

Directors' Report
for the period 1 April 2020 to 31 March 2021

The Directors, who are also Trustees of the charity for the purpose of company legislation, present their annual report and the audited financial statements for the year ended 31 March 2021.

The trustees have adopted the provisions of the 'Statement of Recommended Practice for Charities 2005', in preparing this annual report and these statements.

Operation

The company is operated in accordance with the memorandum and articles of Menter Bro Ogwr. The Board is responsible for overseeing all the work and business of the charity, with the members acting as Directors and Trustees. The Directors were elected by the Annual Meeting of Menter Bro Ogwr.

Responsibilities of the trustees/directors

The trustees/directors are responsible for preparing the Annual Report. This includes responsibility for preparing financial statements in accordance with the requirements of the relevant United Kingdom accounting standards.

United Kingdom legislation on charities requires the trustees to provide for each financial year financial statements giving a true and fair view of the charity's circumstances and of the charity's income and expenditure for that period.

In preparing the financial statements, the trustees are expected to:

- select suitable accounting policies and then apply them consistently.
- make statements that are reasonable and capable.
- state that the relevant accounting standards and Statement of Recommended Practices have been followed apart from any material deviations which have been disclosed and explained in the financial statements.
- provide financial statements on a going-concern basis, unless it be judged inappropriate to assume that the charity will be continuing in business.

The trustees are responsible for keeping appropriate accounts revealing, with a reasonable degree of accuracy and at any given time, the state of the company's and group's financial affairs and enabling them to ensure that the financial statements comply with the Companies Act 2006. They are also responsible for safeguarding the charity's assets and, consequently, for taking reasonable steps to prevent and detect fraud and other irregularity.

As far as the trustees are aware:

- there is no information relevant to the audit of which the auditors are unaware.
- The trustees took the appropriate steps to state that they were aware of all the audit information and to make this information known to the auditors.

Risk Review

